# Dweud Diolch

# ADDOLI AR Y CYD

Dyma ychydig o syniadau i'w harchwilio mewn dyfnder yn ystod gwasanaeth ysgol neu addoliad ar y cyd mewn dosbarth.

## Archwiliwch ddameg yr hedyn mwstard

Yng Ngweddi'r Arglwydd ceir y llinell: 'Deled dy deyrnas.' Be dybiwch chi a olygodd Iesu pan ddefnyddiodd y gair 'teyrnas'? Sut le fyddai teyrnas berffaith?

Dysgodd Iesu i'w ddilynwyr mai lle, neu ffordd o fyw, ble mae cariad a gwerthoedd Duw yn rheoli yw teyrnas Dduw. Felly pan mae Cristnogion yn gweddïo'r llinell, 'Deled dy deyrnas' maent yn cofio Iesu'n dysgu Cristnogion i geisio byw eu bywyd gan gofio y dylent, fel aelodau o'i deyrnas, garu Duw a charu eu cymdogion fel hwy eu hunain.

Dysgodd Iesu ei ddisgyblion y gallent adeiladu teyrnas Dduw trwy weithredoedd bach a thawel yn ogystal â thrwy weithredoedd mawr.

Dysgodd Iesu fod teyrnas Dduw yn debyg i hedyn mwstard. Gwrandewch ar y stori fer a adroddodd Iesu.

## Mathew 13:31-32

'Dwedodd stori arall wrthyn nhw: "Mae teyrnasiad yr Un nefol fel hedyn mwstard yn cael ei blannu gan rywun yn ei gae. Er mai dyma'r hedyn lleiaf un, mae'n tyfu i fod y planhigyn mwyaf yn yr ardd. Mae'n tyfu'n goeden y gall yr adar ddod i nythu yn ei changhennau!"

Pam y tybiwch chi fod Iesu wedi disgrifio teyrnas Dduw fel hyn? Fe ddywedodd hefyd fod teyrnas Dduw yn debyg i barti, trysor, a burum mewn toes. Tybed pam y defnyddiodd o'r lluniau hyn i helpu ei ddilynwyr i ddeall i beth y mae teyrnas Dduw yn debyg?

*Rhowch enghreifftiau o weithredoedd bach allai wneud gwahaniaeth mawr i fywyd eich cymuned yn yr ysgol, neu siaradwch am rywun sy'n dawel bach yn cefnogi eraill ac yn gwneud y byd yn well lle trwy eu gweithredoedd.*

Gall y gweithredoedd bach hyn wneud gwahaniaeth mawr i les y Ddaear a chymunedau o amgylch y byd – ein cymuned byd eang.

## Pwynt gweithredu wedi ei gysylltu i botensial trawsffurfiad a newid

*Gan fod Diolchgarwch yn agos at ddechrau blwyddyn ysgol, gofynnwch i'r disgyblion be hoffent ei gyflawni yn ystod y flwyddyn o'u blaen fel unigolion ac fel dosbarth. Rhowch ystyriaeth i fwy na jest nodau academaidd.*

Beth yw'r hadau o botensial sydd ynoch chi ac yn yr holl ddosbarth? Sut allai'r rhain dyfu yn ystod y flwyddyn?

*Canfyddwch ffordd o gasglu ac arddangos syniadau'r plant neu rhowch ofod cofnodi personol iddynt ysgrifennu/darlunio eu teimladau. Efallai y gellid rhoi 'siwrnal blodau haul' i gadw cofnod o'u myfyrdodau ar draws y flwyddyn.*

cymorth cristnogol

## Eglurwch y stori creu Gristnogol.

*Darllenwch fersiwn plant o stori'r creu yn y traddodiad Cristnogol.*

Pan greodd Duw'r byd - yr haul, y moroedd, y planhigion a'r holl anifeiliaid - edrychodd arno i gyd a dweud ei fod yn 'dda iawn'.

Mae Cristnogion yn credu eu bod wedi eu galw i ofalu am greadigaeth dda Duw. Ac mae galw ar i Gristnogion ddiolch am brydferthwch y Ddaear.

Yn stori'r creu gwelir shalom - heddwch, cyfanrwydd, cydbwysedd. Ydym ni'n profi'r heddwch hwn heddiw? Pam/pam ddim? Be sy'n difetha'n byd ni heddiw? Oes yna bethau y gall y ddynoliaeth ei wneud i wneud gwahaniaeth?

Yn stori'r creu, mae pob person wedi ei greu ar ddelw Duw - pob un yn unigryw ac yn werthfawr. Mae Cristnogion yn credu, felly, fod pawb yn werthfawr gan Dduw. Sut ydym ni'n dathlu doniau, urddas, talentau a phersonoliaeth unigryw pob un - yn cynnwys eich ffrindiau, pawb yn eich dosbarth, a holl gymuned yr ysgol? Sut ydym yn dangos parch tuag at ein gilydd?

Yn stori'r creu, fe grëwyd dynoliaeth ar gyfer cwmnïaeth ac ar gyfer helpu ei gilydd. Yn y stori o Ethiopia, mae Aster a'i ffrindiau wedi dod at ei gilydd i help ei gilydd trwy ddefnyddio ynni haul.

Sut allech chi ddod at eich gilydd yn eich dosbarth neu ar draws yr ysgol i gefnogi'ch gilydd? Sut allech chi weithio gyda phobl yn eich cymdogaeth er daioni'r gymuned leol?

Sut allech chi gefnogi a sefyll gyda phlant a theuluoedd ar draws y byd i helpu trawsnewid ein byd er gwell?

## Gwerthoedd yr ysgol

*Mae gwerthoedd yr ysgol gyfan yn aml yn cael eu harchwilio trwy addoliad ar y cyd ar gyfer yr ysgol gyfan. Byddai stori Agar yn ffordd dda o gychwyn myfyrio ar y gwerthoedd a ganlyn: Parch, Gobaith, Cydraddoldeb, Cyfiawnder. Gallai hyn ddigwydd trwy gyfres o addoli ar y cyd ar gyfer yr holl ysgol neu ddosbarth ar hyd sawl wythnos, wedi ei gefnogi gan ddysgu a myfyrdod ar draws y cwricwlwm.*

## Gweddi/myfyrdod

*Defnyddiwch dempled y blodyn haul trosodd, unai:*

*Rhowch flodyn haul papur i bob disgybl a gofynnwch iddynt ysgrifennu gweddi neu fyfyrdod arno mewn ymateb i un o'r themâu uchod, e.e. diolch/gweddi, gweddi dros Agar a'i theulu, gweddi dros y byd. Adiwch bob blodyn gweddi/myfyrdod i arddangosfa blodau haul.*

*Neu*

*Sefydlwch lecyn ffocal yn cynnwys powlen fas o ddŵr (mae hambwrdd crwn ar gyfer planhigion hefyd yn gweithio'n dda), defnydd lliw, lluniau o'r greadigaeth neu arddangosfa o flodau. Gallech ddefnyddio copi o lun 'Blodau haul' Van Gogh fel rhan o'r arddangosfa.*

*Rhowch flodyn haul papur i bob plentyn a gofynnwch iddynt ysgrifennu gweddi/myfyrdod arno ac yna plygu'r petalau i lawr trwy symud yn ôl symudiad y cloc. Ymgasglwch o amgylch yr arddangosfa ffocal a chwaraewch gerddoriaeth dawel. Pan maent yn barod anogwch i bob plentyn osod eu blodyn yn y 'pwll dŵr' ac aros yn dawel a gweld y blodyn yn agor ar wyneb y dŵr, gan ddatguddio'r gweddïau a'r myfyrdodau a ysgrifennwyd.*


**Mae mwy o syniadau ar gyfer eich ysgol ar gael yn**

**caid.org.uk/harvest-schools**

cymorth cristnogol

# Templed blodyn haul papur

Llungopïwch a thorrwch y templed blodyn haul fel bod digon ar gael i bob plentyn.



Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 Rhif cwmni DG 5171525. Nodau masnachu Cymorth Cristnogol yw'r enw Cymorth Cristnogol a'r logo. Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o ACT Alliance. © Cymorth Cristnogol Mai 2018. J61022 Bydd yr arian a godir trwy ein Hapêl Diolchgarwch 2018 yn derbyn cyfraniad cyfatebol gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi ymrwymo i ariannu 80% o brosiect Chwalu'r Rhwystrau. Mae Cymorth Cristnogol wedi ymrwymo i ariannu'r 20% sy'n weddill trwy apeliadau a chyfraniadau eraill.